**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: Holl Benaethiaid Cymru

Ionawr 2016

Mae Llywodraeth Cymru, a minnau fel Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn ystyried bod absenoldebau o'r ysgol yn fater difrifol iawn. Rwy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn yn mynychu'r ysgol bob cyfle posibl. Rydw i eisiau lleihau unrhyw effaith andwyol a geir ar eu haddysg, sicrhau eu bod yn cael cymorth i gyrraedd eu potensial ac yn cael y gorau posibl o'r profiadau a gânt yn yr ysgol. Hyderaf eich bod yn teimlo'r un fath.

Mae Rheoliadau Cofrestru Disgyblion (Cymru) 2010 yn rhoi pŵer disgresiwn i benaethiaid sy'n caniatáu iddynt awdurdodi absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor os yw rhieni'n gofyn am ganiatâd. Heblaw am amgylchiadau eithriadol, ni ddylid caniatáu mwy na 10 diwrnod o absenoldeb at y diben hwn.

Daeth i'm sylw nad yw'r trefniadau sydd ar waith mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn adlewyrchu bwriad y Rheoliadau. Rwy'n pryderu'n benodol am y ffaith bod canllawiau rhai awdurdodau lleol neu gonsortia yn nodi *na* ddylai penaethiaid arfer eu disgresiwn ac y dylent, yn hytrach, wrthod pob cais i ganiatáu i ddisgybl fod yn absennol yn ystod y tymor fel mater o drefn ni waeth beth yw'r amgylchiadau dros wneud y cais. Mewn rhai amgylchiadau mae penaethiaid wedi mabwysiadu'r drefn hon hefyd.

Mae hyn yn groes i'r Rheoliadau sy'n caniatáu i ysgolion arfer rhywfaint o ddisgresiwn mewn materion o'r fath er mwyn medru ystyried pob cais yn deg ac ar sail ei deilyngdod. Yn ôl y gyfraith gyhoeddus, mae'n ofynnol arfer disgresiwn o'r fath yn deg, ac i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau beidio â gwneud hynny â meddwl caeedig (h.y. yr un polisi i bawb, ni waeth beth yw'r amgylchiadau). Er ei fod yn gwbl briodol i ysgolion lunio polisi ar y modd y bydd yn mynd i'r afael â materion o'r fath, ni ddylai'r polisi hwnnw olygu na ellir ystyried achosion unigol ar sail eu teilyngdod.

Ym mis Rhagfyr 2015, ysgrifennais at yr holl Gyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru i bwysleisio ei bod yn bwysig gweithredu'r Rheoliadau'n deg ac rydw i wedi gofyn am dystiolaeth i gefnogi hynny.

Rydw i wedi bod yn glir iawn ynglŷn â'r modd y dylai'r trefniadau ar gyfer mynd ar wyliau yn ystod y tymor gael eu rhoi ar waith. Mae'r Rheoliadau yng Nghymru yn rhoi pŵer i benaethiaid arfer eu disgresiwn wrth awdurdodi absenoldeb. Dim ond yn achos absenoldeb *o fwy na deg diwrnod ysgol* y mae'r term 'amgylchiadau eithriadol' yn berthnasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Mae’n bosibl iawn fod rhai amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau tynnu disgybl allan o’r ysgol yn ystod y tymor. Mae’n siŵr y byddwch yn ystyried yr adeg o’r flwyddyn pan fwriedir cynnal y daith arfaethedig, hyd a diben y gwyliau, yr effaith ar barhad y dysgu, amgylchiadau’r teulu a dymuniadau’r rhieni ynghyd â phatrwm presenoldeb y plentyn. Chi fydd yn adnabod y disgybl a’r teulu orau ac am hynny chi sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae’r Rheoliadau hefyd yn caniatáu ichi fabwysiadu dull cyson o fewn eich ysgol er mwyn sicrhau tegwch i’r holl ddisgyblion. Rydw i’n eich cefnogi’n llwyr ar y mater hwn.

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills